Archwilio Cymru
Audit Wales

# Gwerth am arian trefniadau cynllun peilot Arosfan

Cyngor Gwynedd

Awst 2026

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) i helpu i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i fod wedi'i argyhoeddi (neu beidio) bod y Cyngor wedi sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio ei adnoddau; ac adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i helpu i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i asesu i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os ydych yn ei ailddefnyddio, rhaid i'ch ailddefnydd fod yn gywir ac ni ddylai fod mewn cyd-destun sy'n gamarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'n rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

## Os oes angen cymorth arnoch gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat neu iaith arall:

- Ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- e-bostiwch ni: post@archwilio.cymru

Cewch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb yn yr iaith yr ydych yn ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio (INTOSAI).

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ciplun archwiliad | 4 |
| Ein canfyddiadau | 6 |
| Argymhellion | 10 |
| Atodiadau | 11 |
| 1 Ynglŷn â’n gwaith | 12 |

# Ciplun archwiliad

## Yr hyn yr oeddem yn edrych arno

1 Edrychom ar drefniadau Cyngor Gwynedd (y Cyngor) i gynllunio, cyflawni ac adolygu cynllun peilot i ddarparu safleoedd parcio i gartrefi modur. Gelwir y safleoedd hyn yn Arosfan. Roeddem yn awyddus i archwilio i ba raddau oedd y trefniadau hyn yn sicrhau gwerth am arian. Mae gwerth am arian yn golygu mwy na chyflawni gwaith am y pris rhataf; mae hefyd yn golygu darparu gwasanaeth o ansawdd mewn dull effeithiol. Hynny yw, cyfuniad o economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Dyma wnaethom ei asesu mewn perthynas â threfniadau'r Cyngor wrth gyflawni cynllun meysydd parcio cartrefi modur Arosfan.

## Pam mae hyn yn bwysig

2 Mae awdurdodau lleol yn gwario llawer o arian ar gynlluniau cyfalaf a refeniw wrth gyflawni eu hamcanion llesiant, dyletswyddau statudol ac ymrwymiadau strategol eraill.

3 Mae costau cynyddol o ganlyniad i chwyddiant a ffactorau eraill, law yn llaw ag ansicrwydd ynghylch ffynonellau incwm, yn golygu bod angen i awdurdodau lleol sicrhau bod pob prosiect gwariant yn cyfrif. Mae'n hanfodol i awdurdodau lleol gael trefniadau priodol mewn lle i sicrhau gwerth am arian wrth wario ar brosiectau.

4 Ers nifer o flynyddoedd, roedd y Cyngor yn treulio amser a gwario adnoddau yn ymateb i nifer gynyddol o gwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol gan ddefnyddwyr cartrefi modur yn yr ardal gan gynnwys parcio anghyfreithlon. Daeth nifer digynsail o bobl ar eu gwyliau i Wynedd yn ystod y flwyddyn 2020. Arweiniodd hyn at broblemau oedd yn cynnwys defnydd pobl o gartrefi modur. Gwnaeth Cabinet y Cyngor gais i swyddogion ymchwilio i opsiynau fyddai'n cyfrannu at ddefnydd mwy cynaliadwy o'r cyfrwng gwyliau hwn.

5 Gall arferion nodedig sydd yn gallu tystiolaethu llwyddiant y trefniadau fod o gymorth i gyrff eraill ynghyd â rhoi sicrwydd i'r Cyngor a'r cyhoedd.

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

6 Mae'r Cyngor wedi ymateb yn rhagweithiol i geisio datrys problem gynhennus leol. Fe brofodd y Cyngor wahanol rwystrau a olygodd bod y peilot yn hwyrach a drytach na'r disgwyl yn dod yn weithredol. Yn dilyn yr oedi, nid yw'r Cyngor wedi cynnal gwerthusiad hyd yn hyn. O ganlyniad, nid oes sicrwydd am y canlyniadau na gwerth am arian y trefniadau i gynnal peilot arloesol Arosfan.

## Yr hyn a argymhellir gennym

7 Rydym wedi gwneud un argymhelliad i'r Cyngor mewn perthynas â threfniadau rheoli prosiect. Dylai'r Cyngor gymhwyso'r argymhelliad mewn ffordd sydd yn gymesur efo maint prosiectau yn y dyfodol.

# Ein canfyddiadau

## Cwblhaodd y Cyngor peilot Arosfan yn hwyrach a drutach na'r disgwyl ac ar raddfa lai

8 Ni chyflawnwyd y prosiect o fewn y gyllideb ac agorwyd y safleoedd yn hwyrach nag a gynlluniwyd. Mewn papur Cabinet yn 2021, y swm dangosol ar gyfer costau codi chwe safle oedd £100,000 ac y byddai uchafswm o chwech. Mewn cais am arian grant Llywodraeth Cymru yn 2022, £340,000 oedd amcan costau'r Cyngor ar gyfer chwe safle i'w wario erbyn diwedd Mawrth 2023. Erbyn 2026, roedd y Cyngor wedi gwario £364,562 ar bedwar safle maes parcio cartrefi modur.

9 Ni chwblhawyd y prosiect ar amser ychwaith. Ebrill 2023 oedd y dyddiad targed ar gyfer agor y safle cyntaf. Nodwyd yn adroddiad Cabinet Tachwedd 2021 y byddai'r fforwm hwnnw yn derbyn adroddiad pellach ymhen tair blynedd, sef 2024. Ni dderbyniodd y Cabinet adroddiad adeg hynny er y daeth y safle cyntaf yn ym mis Hydref 2023.

10 O ganlyniad, ceir sicrwydd cyfyngedig iawn o ddwy elfen bwysig o werth am, sef economi ac effeithlonrwydd.[1]

11 Er bod y Cyngor wedi sefydlu trefniadau i adolygu gwerth am arian safleoedd Arosfan ar gychwyn y prosiect, nid yw'r Cyngor wedi cynnal gwerthusiad na chynnal ymarferiad gwersi a ddysgwyd hyd yn hyn.

[1] Oddi tan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 mae'n rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru fod yn fodlon bod cynghorau lleol yn rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac eu bod yn ddarbodus (gwerth am arian) wrth ddefnyddio'u hadnoddau.

12 Wrth esgor ar y gwaith fe luniodd y Cyngor Gynllun Gwerthuso pedwar cam cynhwysfawr i ddangos sut y bydd yn mesur llwyddiant o ran canlyniadau a dangosyddion eraill. I’w gynnal ar ddiwedd y cyfnod peilot, roedd y gwerthusiad i fod i gynnwys

- holiadur boddhad defnyddwyr;
- holiadur cymuned a busnesau;
- data perfformiad incwm; a
- nifer cwynion a dirwyon.

13 Dywedwyd wrthym mai yn dilyn tymor yr hydref 2026 bydd y Cyngor yn cynnal y gwerthusiad hwn gan nad oedd pob safle Arosfan wedi agor yn llawn nes mis Mai'r flwyddyn honno. Mae’r Cyngor yn adrodd ar ffigurau defnydd ac yn fodlon gyda’r adborth mae’n ei dderbyn drwy’r ffurflen gyswllt ar ei wefan. Er hyn, ni all fod â sicrwydd a yw’r prosiect wedi cyflawni'r canlyniadau a’r buddion a fwriadwyd yn llawn hyd yma. Ni chynhaliwyd gwerthusiad ar raddfa lai i ddysgu gwersi ychwaith, er bod un safle Arosfan wedi agor ers 2023.

14 Heb gynnal gwerthusiad, ni all y Cyngor dderbyn sicrwydd ei fod yn:

- elwa yn llawn o wersi a ddysgwyd;
- gochel rhag ailadrodd camgymeriadau; nac ychwaith
- ennill sicrwydd bod ei drefniadau yn darparu gwerth am arian.

15 O ystyried mai peilot i gynorthwyo’r Cyngor i benderfynu a yw’n dymuno parhau, ehangu neu ddiddymu’r safleoedd oedd y cynllun, mae cynnal gwerthusiad yn bwysig.

## Ymchwiliodd y Cyngor yn drylwyr i’r opsiynau ar gyfer safleoedd cartrefi modur

16 Ymchwiliodd y Cyngor yn dreiddgar i’r pwnc meysydd parcio cartrefi modur. Cyflwynwyd hyn fel sail gref i argymell i’r Cabinet gymeradwyo peilot arloesol i helpu’r Cyngor fynd i’r afael â phroblem gynhennus.

17 Er enghraifft, cyfeiria’r ymchwil at ofynion deddfwriaethol ac arferion rhyngwladol yn y maes. Ystyriodd y Cyngor anghenion defnyddwyr gwasanaeth a’r rhanddeiliaid pwysig eraill, aelodau’r cymunedau a effeithir a pherchnogion busnesau lleol. Derbyniodd y Cyngor nifer uchel tu hwnt o ymatebion i’r holiaduron a roddodd sail dystiolaeth gadarn o’r galw a’r pryderon.

18 Defnyddiodd y Cyngor ei ddadansoddiad o’r ymatebion i lunio'r blaenoriaethau mewn matrics sgorio manwl. Defnyddiwyd hwn i greu rhestr fer o safleoedd arfaethedig i gynnal y peilot. Roedd y matrics yn hidlo safleoedd trwy asesiad cychwynnol ac yna yn ystyried ffactorau yn cynnwys y canlynol:

- pellter o drafnidiaeth gyhoeddus;
- pellter o annedd;
- cysylltiad dŵr a charthffosiaeth;
- pellter o leoliad o ddiddordeb i ymwelwyr a llwybrau cerdded/seiclo; ac
- effaith andwyol posibl ar olygfa.

19 Nid oedd y ddogfen ymchwil yn nodi sut byddai’r prosiect yn cyd-fynd ag amcanion llesiant y Cyngor nac unrhyw nodau strategol eraill. Er hynny, ymgorfforwyd y peilot fel un o brosiectau Cynllun y Cyngor yn ddiweddarach yn 2023 i gyfrannu at gyflawni'r amcan Gwynedd Lewyrchus.

20 Mae ymchwil trwyadl, fel y gwelwyd yma, yn bwysig mewn cyd-destun gwerth am arian er mwyn osgoi cyflwyno polisïau diffygiol.

## Nid yw’r Cyngor wedi dwyn ar yr holl drefniadau rheoli prosiect cydnabyddedig wrth gyflawni peilot Arosfan

21 Roedd bylchau yn nhrefniadau’r Cyngor i reoli prosiect Arosfan. Nid oedd y Cyngor wedi llunio’r confensiynau rheoli prosiect safonol a ganlyn ar gyfer cynnal a chwblhau’r gwaith:

- amserlen fanwl gyda thargedau amser ar gyfer y gwahanol gydrannau; nac ychwaith

- cynllun cyfathrebu.

22 Nodwyd mai isadeiledd dŵr y safleoedd oedd y prif rwystr rhag cynnal y gwaith o fewn y dyddiad targed.

23 Er bod y Cyngor wedi llunio cofrestr risg sylfaenol i gefnogi'r cais am arian grant, ni chafodd ei diweddaru. Ymhellach, nid oedd y gofrestr yn cynnwys cyfeiriad at y risgiau a arweiniodd yn bennaf at yr oedi i'r prosiect.

24 Mae'n arferiad da i awdurdodau cyhoeddus ddwyn ar y dulliau rheoli prosiect cydnabyddedig uchod. Mae'r rhain yn gallu helpu'r Cyngor adnabod ac ymateb yn brydlon pan fo camau allweddol yn llithro a gwariant yn cynyddu. Mae hefyd yn fodd o adnabod pob risg o flaen llaw, ymdrin â nhw yn ffurfiol ac yn debygol o gyfrannu at ennill sicrwydd o werth am arian.

25 Goruchwyliwyd y prosiect gan weithdrefn lywodraethu ragnodedig. Lluniwyd Bwrdd Prosiect trawsadrannol dan ofal Pennaeth Adran Cynorthwyol i drafod cynnydd efo'r peilot ac mae'r grŵp yn parhau i gwrdd yn fisol. Adroddodd y Bwrdd i Grŵp Prosiectau Sylweddol y Cyngor ar un achlysur. Ers cael ei gynnwys fel un o brosiectau Cynllun y Cyngor 2023-28, mae'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn derbyn diweddariadau ffigurau defnydd y peilot. Er hyn, ni fu cyfle i gyfundrefn craffu'r Cyngor graffu ar y cynllun ymlaen llaw.

26 Gall lefel briodol o graffu cychwynnol gynorthwyo'r Cyngor i adnabod risgiau ariannol ac ymarferol yn gynharach drwy gynnwys mwy o bobl o wahanol safbwyntiau. Mae'n rhesymol i bennu mwy o oruchwyliaeth a gwiriadau pan mae prosiect o natur peilot, i roi sicrwydd o werth am arian bod adnoddau yn cael eu defnyddio mewn ffordd sy'n helpu'r Cyngor gyflawni ei amcanion.

# Argymhellion

27 Noder bod yr argymhelliad hwn ar gyfer trefniadau rheoli prosiect cyffredinol y Cyngor ac y dylid eu cymhwyso mewn ffordd sy'n gymesur efo'r prosiect dan sylw.

**A1** Er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd o gynnal prosiect neu beilot o brosiect yn llwyddiannus, dylai'r Cyngor ddefnyddio trefniadau rheoli prosiect sy'n gymesur efo maint y gwaith (**paragraffau 21-26**). Dylai'r rhain gynnwys y nodweddion canlynol fel isafswm:

- cofrestr risg;
- cynllun cyfathrebu;
- cyllideb fanwl; ac
- amserlen fanwl.

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â’n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Roedd yr archwiliad yn ymdrin â’r trefniadau oedd gan y Cyngor ar waith i gynllunio, cyflawni ac adolygu ei brosiect Arosfan. Roedd yr archwiliad yn asesu i ba raddau y sicrhaodd trefniadau'r Cyngor werth am arian yn ystod pob un o'r camau hyn. Ystyriodd Archwilio Cymru dystiolaeth mewn perthynas â'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer y prosiect hwn yn unig. Fodd bynnag, fe all Archwilio Cymru wneud sylwadau ar drefniadau corfforaethol lle bo'n briodol. Cynhaliwyd y gwaith maes yn ystod mis Mai 2026.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

- A wnaeth trefniadau’r Cyngor i gynllunio’r prosiect sicrhau gwerth am arian?
- A wnaeth trefniadau'r Cyngor i gyflawni'r prosiect sicrhau gwerth am arian?
- A wnaeth trefniadau’r Cyngor i adolygu'r prosiect sicrhau gwerth am arian?

### Meini prawf

Defnyddiodd Archwilio Cymru feini prawf wrth gynnal yr archwiliad hwn. Maent yn ymwneud â threfniadau cynllunio, cyflawni ac adolygu. Adwaenir nifer fel yr hyn a ddisgwylir yn ôl arfer da rheoli prosiect yn nhyb CIPFA.

## Dulliau

Defnyddiodd yr archwiliad y dulliau canlynol:

- Adolygwyd dogfennau a rannwyd â ni; a
- Chyfwelwyd â swyddogion allweddol (tri chyfweliad).

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a’r Senedd. Swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae’r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd defnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallent wella.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith â chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef corff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw term ambarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae’r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân ac mae ganddynt swyddogaethau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.